

Awduron: Russell Todd a Anna Nicholl
Authors: Russell Todd and Anna Nicholl



GRYMUSO CYMUNEDAU EMPOWERING COMMUNITIES



Hoffai'r awduron gydnabod cyfraniadau Chris Johnes o Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Sarah Lloyd Jones o'r Uned Pobl a Gwaith, rhwydwaith Talwrn ac aelodau'r trydydd sector ehangach.

Cyhoeddwyd gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mai 2018.

Prif swyddfa: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Ffôn: 0800 2888 329 (croesewir galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg).

E-bost: help@wcva.org.uk

Mae WCVA yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a geir yn y Gymraeg, yn y Gymraeg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Rhif elusen gofrestredig 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299.

ISBN 978-1-910340-29-5

The authors would like to acknowledge the contributions of Chris Johnes from Building Communities Trust, Sarah Lloyd Jones from the People and Work Unit, the Talwrn network and members of the wider third sector.

Published by Wales Council for Voluntary Action (WCVA). May 2018.

Head office: Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff CF10 5FH

Tel: 0800 2888 329 (calls are welcomed in Welsh and in English)

E-mail: help@wcva.org.uk

WCVA welcomes receiving correspondence in Welsh. We will respond to correspondence received in Welsh, in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Registered charity number 218093, company limited by guarantee 425299.

ISBN 978-1-910340-29-5



BACKGROUND

Ddechrau 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol ac yn datblygu "dull newydd o greu cymunedau cryf". Mae Gymuso Cymunedau'n un o dri phrif ganolbwyt y gwaith hwn.

Drwy gydol 2017 a dechrau 2018, mae WCVA wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ynghylch sut y gallwn gydweithio i rymuso cymunedau a hybu llesiant cymunedol ymhellach.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'r **Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau** a rhwydwaith **Talwrn** ac wedi cynnal trafodaethau rheolaidd â rhwydweithiau'r trydydd sector, gan gynnwys **Cynghrair Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Plant yng Nghymru, DTA Cymru, CWVYS, Cyngor Rhng-ffydd Cymru, Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru** a Grŵp Cydraddoldeb Cymru.

Roedd meithrin cyswllt yn rhan ganolog o'r gwaith. Defnyddiwyd amryw o ddulliau cyfranogol a digidol gan gynnwys **sgyrsiau ar y cyfryngau cymdeithasol, podlediadau, flogiau, blogiau**, gweithdai a **dadleuon**, ynghyd â chyflwyniadau ysgrifenedig traddodiadol o bob rhan o'r sector a thrafodaethau bord gron.

Roedd y drafodaeth gychwynnol yn seiliedig ar **bapur trafod**, wedi'i ysgrifennu ar y cyd â Talwrn. Cynhaliwyd dwy drafodaeth bord gron gysylltiedig hefyd ag Ymddiriedolaeth Carnegie y DU a chyhoeddwyd adroddiad ar y cyd, **Cefnogi Lleoedd Lleol a Phobl Leol: Cyfleoedd a Heriau ar gyfer Trefi yng Nghymru** sydd wedi tynnu ar ymchwil ehangach Carnegie ar **Trefi Trawsnewid** ledled y byd.

Diben y papur hwn yw rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a'r camau gweithredu a argymhellir er mwyn:

- Ilywio syniadaeth yn y trydydd sector
- dylanwadu ar bolisi a gweithredu yng Nghymru

In early 2017, the Welsh Government announced that it would phase out Communities First and develop a 'new approach to building resilient communities'. One of the three main areas of focus under this is Community Empowerment.

Through 2017 and early 2018, WCVA has worked with partners to develop proposals on how we can collectively increase community empowerment and community wellbeing.

We have worked in close partnership with **Building Communities Trust** and the **Talwrn** network and held regular discussions with third sector networks, including the **Black Asian Minority Ethnic Alliance, Children in Wales, DTA Cymru, CWVYS, Interfaith Council for Wales, Third Sector Support Wales, Urdd Gobaith Cymru, Wales Co-operative Centre** and Wales Equality Group.

Core to the work was engagement. We used a variety of participative and digital methods including **social media chats, podcasts, vlogs, blogs**, workshops and **debates**, as well as traditional written submissions from across the sector and roundtable discussions. We have also drawn on research evidence.

A **discussion paper**, co-written with Talwrn, framed the initial debate. We also held two related roundtables with Carnegie UK Trust and co-published a joint report, **Local Places and Local People: Opportunities and Challenges for Welsh Towns** which has drawn on Carnegie's wider research on **Turnaround Towns** internationally.

The aim of this paper is to provide a summary of findings and recommended actions to:

- inform thinking in the third sector
- influence policy and action in Wales

EIN HEGWYDDORION

OUR PRINCIPLES

Rhannwyd llu o syniadau ymarferol, awgrymiadau a gwerthoedd â ni, llawer ohonynt yn deillio o brofiadau o weithio mewn cymunedau a gyda chymunedau.

Rydym wedi eu casglu ynghyd i greu'r egwyddorion cyffredinol isod:

- 1 Cydnabod pwysigrwydd eglurder o ran iaith a chanlyniadau**
- 2 Deall sut y gall lle fod yn allweddol i rymuso**
- 3 Mabwysiadu dulliau wedi'u seilio ar Ddatblygu Cymunedol sy'n Seiliedig ar Asedau**
- 4 Cydnabod gwerth cyfalaf cymdeithasol**
- 5 Gwerthfawrogi mudiadau angori cymunedol**
- 6 Bod yn glir beth mae llwyddiant yn ei olygu**

Roedd themâu trawsbynciol o fewn yr egwyddorion hyn. Dro ar ôl tro, clywsom am bwysigrwydd perchnogaeth ac arweinyddiaeth leol er mwyn llwyddo. Mae angen gweithredu mewn modd hyblyg a bod yn barod i addasu, a chydnabod natur unigryw pobl a lleoedd. Os ydym am wneud pethau'n wahanol, mae angen i ni fod yn fwy arbrofol, a dysgu o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio'n ymarferol. Mae cydweithredu'n elfen hanfodol arall. Mae gan wahanol fudiadau a phobl gyfraniadau penodol y gallant eu gwneud ac mae angen manteisio ar y rhain er mwyn llwyddo. Yn olaf, mae angen i ni allu rhannu a defnyddio'r hyn a ddysgir yn well, gan sbarduno mabwysiadu gan grwpiau arferion sy'n gweithio'n dda a ffrwyno gweithgarwch nad yw'n gwneud hynny.

A wealth of practical ideas, suggestions and values were shared with us. Much of them draw on the lived experience of working in and with communities.

Here we collate them into over-arching principles:

- 1 Recognise the importance of clarity of language and outcomes**
- 2 Understand how place can play a key role in empowerment**
- 3 Adopt approaches founded on Asset Based Community Development**
- 4 Recognise the value of social capital**
- 5 Value community anchor organisations**
- 6 Be clear what success means**

There were cross-cutting themes within this. Time and time again we heard about the importance of local ownership and leadership for success. Approaches need to be flexible and adaptable, recognising the uniqueness of people and places. If we are to do things differently, we need to be more experimental, learning from what does and doesn't work in practice. Collaboration is another essential ingredient. Different organisations and people have particular contributions that they can make and which need to be harnessed for success. Finally, we need to be better at sharing and using learning, speeding up groups adopting practice that works well and putting the brakes on activity that doesn't.



1



**CYDNABOD PWYSIGRwydd
EGLURDER O RAN IAITH A
CHANLYNIADAU**
**RECOGNISE THE IMPORTANCE
OF CLARITY OF LANGUAGE
AND OUTCOMES**

Mae iaith yn bwysig. Bydd gwahanol sectorau'n defnyddio terminoleg a chysyniadau mewn gwahanol ffyrdd a bydd cymunedau'n eu dehongli'n wahanol; ni ddylid cymryd yn ganiataol bod pawb yn deall popeth yn yr un ffordd.

Pa dermau bynnag a ddefnyddiwn, mae angen i'r cysyniadau sylfaenol fod yn glir ac yn gyson. Mae'n rhaid wrth eglurder ynglŷn â'r hyn rydym am ei gyflawni.

Cymuned

Gall 'cymuned' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Yn y papur hwn defnyddiwn y diffiniad isod:

Defnyddir y gair 'cymuned' i ddisgrifio grŵp o bobl y mae edefyn cyffredin yn eu clymu at ei gilydd. Efallai eu bod i gyd yn byw yn yr un lle, neu'n rhannu'r un diddordeb, ffydd neu ethnigrwydd neu nodwedd gyffredin arall (er enghraift, cymuned pobl fyddar).

Tynnodd ein gwaith meithrin cyswllt sylw at gymhlethdodau gwirioneddol o ran deall cymunedau. Mae pobl yn perthyn i lawer o wahanol gymunedau, ac nid ydynt wedi'u clymu at yr un o'r rhain. Yn y gwaith hwn, rydym wedi canolbwytio ar gymunedau sy'n 'seiliedig ar le' neu ardal leol, ond mae grwpiau gwahanol o bobl yn byw yn y rhain: gwahanol ryweddau, grwpiau ethnig, grwpiau ffydd, oedrannau. Efallai na fydd rhai grwpiau, megis mewnfudwyr a phobl sydd wedi'u dadleoli, yn teimlo cysylltiad yr un mor gryf â lle ag y mae cymunedau hanesyddol. Gall un cymuned deimlo'i bod yn cael ei heithrio gan un arall. Mae rhai pobl yn teimlo fwyfwy eu bod yn aelodau o gymunedau rhithwir neu ar-lein yn ogystal â rhai 'traddodiadol'.

Dylai cydnabod amrywiaeth mewn cymunedau ac ar draws cymunedau – a meithrin y cryfderau sy'n dod gyda hynny – fod yn ganolog i bolisiâu llesiant cymunedol. Mae cydraddoldeb yn rhan o lesiant cymunedol.

Language matters. Different sectors will use terminologies and concepts in different ways and communities will have different interpretations; shared understanding should not be assumed.

Irrespective of the terms we use we need to be clear and consistent in the underpinning concepts. There must be clarity about what we want to achieve.

Community

'Community' can mean different things to different people. In this paper we use the following definition:

The term community is used to describe a group of people who are bound together by some common thread. They may all live in a geographical location, or they may share an interest, faith or ethnicity or other common characteristic (for example, the deaf community).

Our engagement underlined the real complexities of understanding communities. People belong to multiple communities, and their belonging to any one is not fixed. In this work, we have focussed on 'place-based' or locality based communities, but different groups of people live within them: different genders, ethnicities, faiths, ages. Some groups, such as migrants and displaced people, may not strongly identify with place as historic communities have. One community can feel exclusionary to another. Increasingly some people are members of virtual or online communities in addition to 'traditional' communities.

Recognising the diversity in and across communities – and building on the strengths this brings – should be at the core of community wellbeing policies. Equality is part of community wellbeing.

Gwydnwch

Gall dealltwriaeth pobl o 'wydnwch' ac ystyron hynny hefyd fod yn wahanol ar draws a rhwng cymunedau. I rai, mae iddo ystyr negyddol:

- a) 'Cadw'ch pen uwchlaw'r dŵr', nod heb uchelgais
- b) Mae perygl y gellid anwybyddu'r grymoedd gwleidyddol, economaidd neu amgylcheddol allanol sydd wedi creu neu roi rhwydd hynt i anghydraddoldebau drwy ganolbwytio ar allu cymunedau i'w gwrthsefyll
- c) Cysylltiadau cryf, gwahanol â meysydd polisi penodol, yn enwedig gwydnwch amgylcheddol (fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Difodol) a gallu'r gymuned i ymdopi a dod ati'i hun ar ôl argyfwng neu drawma
- d) Gellir ei ddefnyddio i guddio neu gyfiawnhau eryriad gwasanaethau cyffredinol a nawdd cymdeithasol

Roedd llawer o bobl o'r farn nad gwydnwch y dylem fod yn anelu ato fel nod cyffredinol. Maent am weld cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus; yn rymus ac wedi'u cyfoethogi; nid dim ond yn ymdopi.

Ond i rai mae 'gwydnwch' yn air grymus, ac iddo gysylltiad cryf â pherchnogaeth gymunedol, arloesi, datblygu cynaliadwy ac edrych tua'r dyfodol. Mae'n air sy'n ystylon i ymddiriedolaethau datblygu a llawer o fentrau cymdeithasol a mudiadau angori cymunedol.

Y term a gododd dro ar ôl tro oedd 'grymuso'. A dyna rydym wedi'i fabwysiadu ar gyfer y papur hwn.

Grymuso

Grymuso yw'r elfen hanfodol er mwyn gwella llesiant cymunedol. Mae cymunedau wedi'u grymuso'n rhai lle mae pobl yn dod at ei gilydd i wneud pethau er budd eu cymuned, ac i herio a dylanwadu ar benderfyniadau allanol sy'n effeithio ar eu cymuned.

Mae cymunedau wedi'u grymuso'n arfer rheolaeth neu ddylanwad dros y defnydd a wneir o'u hasedau amgylcheddol a chymunedol allweddol ac yn sicrhau bod o leiaf rai o'r buddion yn cael eu gwireddu'n lleol. Dangosodd ymchwil Ymddiriedolaeth Carnegie y DU y grym a ddaw wrth i bobl leol berchnogi naratif cadarnhaol am y bobl a'r lleoedd yn eu cymunedau.

Resilience

'Resilience' too might have different understandings and connotations across and between communities. For some, it had negative connotations:

- a) 'Keeping their heads above water', an unambitious goal
- b) It risks ignoring the external political, economic or environmental forces that created or perpetuated inequalities by focusing on communities' ability to withstand them
- c) Strong and differing connections with specific policy areas, particularly environmental resilience (as defined in the Wellbeing of Future Generations Act) and community's ability to cope with and heal after an emergency or trauma
- d) It can be used to conceal or justify the erosion of universal services and social security

Many people thought resilience should not be our overall goal. They want communities to thrive and prosper; to be powerful and enriched; not merely to cope.

However, for others 'resilience' is a powerful word, strongly linked to community ownership, innovation, sustainable development and being forward looking. It resonates with development trusts and many community enterprises and community anchors.

The term that recurrently cropped up was 'empowerment'. It is that which we have adopted for this paper

Empowerment

Empowerment is the essential ingredient for increasing community wellbeing. Empowered communities are ones where people come together to do things for the benefit of their community, and to challenge and influence external decisions that impact on their community.

Empowered communities exercise control or influence over the use of their key environmental and community assets and ensure that at least part of their benefits are realised locally. Carnegie UK Trust's research showed the power of local people owning a positive narrative about the people and places in their communities.

Mae grymuso'n gweithio ddwy ffordd. Mae'n rhaid ildio grym a rheolaeth er mwyn i eraill gael eu harfer. Mae hynny'n golygu bod angen i gyrrf cyhoeddus, busnesau a mudiadau gwirfoddol gynllunio a chreu atebion ar y cyd â chymunedau lleol – gwneud *gyda* nid gwneud i. Dylai fod yn fwya dim ond gwrandio ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud; mae'n rhaid i bobl allu dod at ei gilydd i wneud pethau drostynt eu hunain, ac arwain y newid. Yn hyn o beth mae'n mynd y tu hwnt i feithrin cyswllt.

Nid yw'n fater o adael i gymunedau ymorol drostynt eu hunain. Nid yr un broses yw grymuso i bob grŵp chwaith. Bydd rhwystrau rhag cymryd rhan, profiadau blaenorol o feithrin cyswllt, ymyleiddio, anghyfartaledd wrth ddosbarthu adnoddau a chysylltiadau grym yn dylanwadu ar y broses. Bydd angen cymorth, adnoddau ac amser ychwanegol ar rai cymunedau i'w grymuso eu hunain. Mae'n rhaid i gydraddoldeb fod yn ganolog i rymuso.

Mae tensiynau ynghlwm wrth hyn a all greu gwrtthdar. Nid proses unionlin yw grymuso. Gall asiantaethau allanol, gan gynnwys llywodraeth, greu'r amodau sy'n galluogi cymunedau wedi'u grymuso i ddatblygu. Mae'n rhaid wrth amser ac amynedd i gyflawni hyn.

Clywsom hefyd y gall llywodraeth a chyrrf cyhoeddus ddadrymuso cymunedau drwy greu dibyniaethau, gan dynnu gallu oddi wrth cymunedau, drwy gymhlethu a biwrocratieddio prosesau o newid. Y disgwyliad lleiaf yw na ddylai cyrff cyhoeddus wneud niwed.

Dim ond drwy rannu cyd-ddealltwriaeth o'r iaith a ddefnyddiwn y gallwn sicrhau eglurder ynghylch yr hyn y mae'n bosib ei gyflawni. Mae hyn yn ein cyfeirio at un o wersi allweddol Cymunedau yn Gyntaf. Er ei bod wedi sicrhau llawer o ganlyniadau cadarnhaol i unigolion yng nghymunedau difreintiedig Cymru, cafodd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei llesteirio oherwydd gosodwyd iddi:

'... y dasg amhosibl i bob pwrrpas o leihau tlodi, rhywbeth na allai un rhaglen unigol fyth ei gyflawni.'

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017, t.13)

Empowerment is two-way. Power and control have to be given up for others to exercise it. This means public bodies, business and voluntary organisations co-designing and co-producing solutions with local communities - doing *with* not doing to. It shouldn't just be about listening to what people say; it must be about people being able to come together to do things themselves, to lead change. In this way it is moving beyond engagement.

It is not about communities being abandoned to fend for themselves. Neither is empowerment a process that will be uniform for all groups. Barriers to participation, previous experiences of engagement, marginalisation, inequitable distribution of resources and existing power relations will shape the process. Some communities will require additional support, resources and time in order to empower themselves. Equalities must remain at the heart of empowerment.

There are inherent tensions in this that can generate conflict. Empowerment is not a linear process. Outside agencies, including government, can create the conditions that enable empowered communities to develop. It takes time to achieve and requires patience.

We also heard that government and public bodies can disempower communities through creating dependencies, de-capacitating communities, by complicating and bureaucratising change processes. At a minimum, public bodies should do no harm.

Only when we share a common understanding of the language we use can we obtain clarity of what is possible to achieve. This points to a key lesson of Communities First. Despite achieving many positive outcomes for individuals in Wales's disadvantaged communities, Communities First was hamstrung by being:

'....set the near impossible task of reducing poverty, which could never be achieved through one single programme'

(National Assembly for Wales, 2017, p.13)

Canlyniadau

Awgrymwn y dylid anelu at ganlyniad yn y pen draw o wella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD) yn darparu diffiniadau defnyddiol o'r hyn y mae hynny'n ei olygu ar lefel genedlaethol y gellir ei efelychu ar lefel leol. Mae llesiant cymunedol yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dros y tymor hir.

Cynigiwyd llu o syniadau ynghylch yr hyn a fy ddai'n gwella llesiant – y conglfeini – mewn cymunedau a beth fyddai llwyddiant yn ei olygu. Mae'r rhestr yn faith ond cododd rhai awgrymiadau droeon:

- Rhwydweithiau cymdeithasol cryf a mudiadau lleol sy'n galluogi pobl i gydweithredu'n lleol a chael dylanwad y tu hwnt i'w ffiniau
- Economiâu rhanbarthol ac is-ranbarthol amrywiol sy'n galluogi pobl i gael gwaith hyd yn oed wrth i sectorau penodol dyfu a chrebachu
- Seilwaith ffisegol lleol cryf a chynlluniau ar waith i ymdopi ag ergydion
- Ethos cryf, eang o wirfoddoli a chyfranogi cymunedol
- Cyfranogi a chyswllt â democratiaeth leol
- Lle i bobl gwrdd i gydweithio, cynllunio camau gweithredu ar y cyd, cymdeithasu, meithrin cyswllt â'i gilydd (mae IVAR a Local Trust yn sôn bod angen 'cyswllt digymhell')
- Gwasanaethau wedi'u creu ar y cyd gan gyrrff cyhoeddus a defnyddwyr gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion y gymuned
- Twf economaidd tecach sydd o fudd i'r mwyafrif, nid dim ond i rai
- Cyflogaeth leol gynaliadwy sy'n rhoi sicrwydd i bobl ac incymau digonol iddynt i allu fforddio o leiaf yr amwynderau, nwyddau a gwasanaethau sylfaenol
- Perchnogaeth ac arweinyddiaeth leol ar brosesau cynllunio llesiant a chymunedol
- Hunaniaeth a naratif (neu stori) cadarnhaol ar gyfer lleoedd
- Cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth

Outcomes

We suggest the overall outcome should be to improve well-being in communities across Wales. The Wellbeing of Future Generations (WFG) Act provides useful definitions of what that means at a national level which can be mirrored at the local level. Community wellbeing is about increasing social, economic, environmental and cultural wellbeing over the long-term.

There was a wealth of ideas for what would bring about improved wellbeing - the building blocks - in communities and what success would look like. The list is extensive but several elements were repeatedly suggested:

- Strong social networks and local institutions which allow people to co-operate locally and influence beyond their boundaries (see principle 5)
- Diversified regional and sub-regional economies which allows people to access work even as specific sectors rise and fall
- Strong local physical infrastructure and plans in place to cope with shocks
- Strong, widely-held ethos of volunteering and community participation
- Participation in and engagement with local democracy
- Space where people can meet to collaborate, plan for collective action, associate, engage with each other (IVAR and Local Trust, p.6, talks about the need for 'spontaneous encounters')
- Services co-produced by public bodies and service users that are responsive to community need
- More equitable economic growth that benefits the many and not the few
- Sustainable, secure local employment for people with incomes adequate enough to afford at the very least basic amenities, goods and services
- Local ownership and leadership of community and wellbeing planning processes
- A positive identity and narrative (or story) for places
- Opportunities for people to participate in activities related to the arts, culture and heritage



© Jon Pountney

Er hynny, mae'r pethau penodol y mae pobl am eu cyflawni mewn gwahanol leoedd yn rhai y bydd angen eu pennu ar lefel leol gan bobl leol. Mae'r gwaith sy'n cael ei arwain gan Gyngor Tref Llanelli yn enghraift wych o hyn, ac yn lleoleiddio Deddf LICD.

Bydd gan wahanol bobl a mudiadau gyfraniadau gwahanol i'w gwneud er mwyn cyflawni nod cyffredin. Mae cymunedau wedi'u grymuso'n ganolog i wella llesiant cymunedol, ond allan nhw ddim gwneud popeth. Mae angen cyfraniad gan wahanol weithredwyr hefyd, gan gynnwys gwahanol lefelau o lywodraeth, i greu amgylchedd y gall cymunedau weithio ynddo.

Dylai perthynas llywodraeth â'r gwahanol fathau hyn o gymunedau amrywio. Gall llywodraeth helpu i feithrin cymunedau lle – drwy'r drefn gynllunio, polisiau adfywio, seilwaith trafnidiaeth, darpariaeth addysgol er enghraift. Mae dyletswydd foesol arni i gefnogi cymunedau buddiant nad ydynt yn rhai gwirfoddol megis pobl anabl neu bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cymunedau hynny y mae cymdeithas wedi cytuno eu bod yn haeddu statws cyfreithiol megis ffydd a'r Gymraeg. Er hynny, ni ddylai llywodraeth ymyrryd â chymunedau (neu gymdeithasau) buddiant y mae pobl yn dewis ymuno â hwy o'u gwirfodd. Gellid dadlau eu bod yn gryf ac yn egniol oherwydd eu bod yn annibynnol ar y wladwriaeth.

However, the specific things that people want to achieve in different places will need to be determined at a local level by local people. The work being led by Llanelli Town Council is a great example of where this is happening, serving to localise the WFG Act.

Different people and organisations will have different contributions to make to achieving a common goal. Empowered communities are central to increasing community wellbeing, but they can't do it all. The contribution of different players, including different levels of government are also needed to create the environment for communities to work within.

The relationship that government has with these different types of communities should vary. Government can help foster communities of place – via the planning system, regeneration policies, transport infrastructure, education provision for instance. It has a moral obligation to support non-voluntary communities of interest such as disabled people or BAME and those communities that society has agreed deserve legal standing such as faith and Welsh language. However, government should not interfere in communities of interest (or associations) with which people voluntarily choose to involve themselves. Their strength and vibrancy could be argued to be because they are independent of the state.



2

**DEALL SUT Y GALL
LLE FOD YN
ALLWEDDOL I RYMU
SO
UNDERSTAND HOW PLACE
CAN PLAY A KEY ROLE IN
EMPOWERMENT**

Roedd consensws y dylai lle fod yn un o elfennau diffiniol dulliau gweithredu newydd y llywodraeth o safbwyt creu cymunedau cryf wedi'u grymuso. Er hynny, nid dyma ddylai fod yr unig elfen.

Yn ei ymchwil i werth ac arwyddocâd lle yng Nghymru, *Valuing Place*, daeth Sefydliad Young i'r casgliad hwn:

'Mae'r gymuned sy'n seiliedig ar le yn egwyddor drefniadol neu gysniadol gref i lawer o bobl, yn rhannol oherwydd yr agosrwydd mae'n ei ddarparu at eraill ac yn rhannol oherwydd hanes a rhwydweithiau lle'

(Sefydliad Young, 2017, t.5)

Pwysleisiodd nifer o'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth ethnograffig hon fod y lle y maent yn byw yn ddo'n rhoi ymdeimlad o falchder iddynt, a:

'Er gwaethaf anghydraddoldebau amlwg, a heriau... yr ymateb pennaf gan bobl yw na fyddent eisiau symud i ffwrdd'

(Sefydliad Young, 2017, t.21)

There was consensus that place should be a defining element of the government's new approaches to resilient and empowered communities. However, it should not be the only element.

In *Valuing Place*, its research into the value and significance of place, The Young Foundation concluded that:

'The place-based community is a strong organising or conceptual principle for many people, partly because of the proximity it provides to others and partly because of the history and networks of place'

(The Young Foundation, 2017, p.5)

Many of the participants in this ethnographic study emphasised how the place in which they lived gave them a sense of pride and that

'Despite marked inequalities, and challenges... the overwhelming response from people is that they would not want to move away'

(The Young Foundation, 2017, p.21)



Nododd Chwarae Cymru fod ymlyniad at bobl a lle, i blant, yn un o nifer o ffactorau cydgysylltiedig wrth iddynt ddatblygu gwydnwch unigol, a bod chwarae'n elfen hanfodol wrth hwyluso'r ymlyniad hwnnw.

Canfu ymchwil Trefi Trawsnewid Ymddiriedolaeth Carnegie y DU, o safbwyt Cymru, fod lle – ac yn yr achos hwn, trefi – yn gymhelliad cryf o ran awydd pobl i gymryd rhan mewn materion lleol. Pwysleisiwyd dro ar ôl tro fod yr elfen leol yn hollbwysig i ymdrechion i wella llesiant a grymuso. Ond nid yw'r lleol yn bodoli mewn gwagle. Mae gwaith Carnegie ar drefi yn yr Alban yn cydnabod bod yna sbectrwm: gall trefi fod yn ddibynnol ar ei gilydd ac yn annibynnol ar ei gilydd mewn gwahanol ffyrdd.

Mae gwaith Carnegie ar drefi'n dangos bod pobl leol wrth ddiffinio'u cymunedau'n hanfodol er mwyn llwyddo. Os rhoddir cyfrifoldeb i'r sector statudol i gyflenwi rhagleni penodol yn seiliedig ar le, mae hynny'n aml yn arwain at ddiffiniadau wedi'u rhagddiffinio neu wedi'u diffinio o safbwyt biwrocrataidd o le a chymuned, ni all ddim golygu rhyw lawer i'r bobl leol.

Mae'n rhaid i'r pwyslais hwn ar le gydnabod er hynny y gall ymlyniad at le fod yn wannach mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl yn mynd a dod neu lle mae lefelau mewnfudo'n uchel; ond gall presenoldeb grwpiau mwy hirsefydledig o fewnfudwyr, grwpiau ffydd neu fudiadau sy'n cefnogi pobl o wahanol grwpiau ethnig neu genedligrwydd wneud iawn am hynny. Felly, mae'n hollbwysig fod camau i wella llesiant yn cydnabod y cydgysylltiad rhwng lle, hunaniaeth a buddiannau.

Play Wales noted that for children an attachment to people and place is one of several interrelated factors in them developing individual resilience, with play a critical component in facilitating that attachment.

Carnegie UK Trust's Turnaround Towns research, and its application to Wales, found place – in this instance, towns – to be a strong motivating element in people wanting to involve themselves in local matters. Local was repeatedly emphasised as crucial to efforts to improve wellbeing and to empower. However local does not exist in a vacuum. Carnegie's work on Scottish towns recognises that a spectrum exists: towns can be dependent on each other, inter-dependent, and independent of each other in various ways.

Carnegie's work on towns shows that local people defining their communities is central to success. If the statutory sector is invested with responsibility to deliver specific place-based programmes, it often leads to pre-defined or bureaucratically-defined definitions of place and community which can mean little to local people.

This emphasis on place must recognise however that in areas with a high transience of people or in-migration attachment to place may be weaker; but compensated for by the presence of longer-established immigrant groups, faith groups or organisations that support people of particular ethnicities or nationalities. So it is crucial that approaches to improve wellbeing recognise the intersections between place, identity and interests.



3



**MABWYSIADU DULLIAU
WEDI'U SEILIO AR DDATBLYGU
CYMUNEDOL SY'N SEILIEDIG
AR ASEDAU**

**ADOPT APPROACHES FOUNDED
ON ASSET BASED COMMUNITY
DEVELOPMENT**

Roedd y rhai y buom yn meithrin cyswllt â hwy'n unfryd fod angen dulliau'n seiliedig ar asedau, ar wahanol raddfeydd a lefelau. Mae'r rhain yn canolbwytio ar gryfderau cymunedau yn hytrach na diffygion canfyddedig.

Pwysleisiodd pobl fanteision gweithredu ar lefel y gymuned neu'r gymdogaeth sy'n caniatáu i gymunedau ddefnyddio eu hasedau allweddol ac arfer rheolaeth neu ddylanwad dros y ffordd y cânt eu defnyddio. Gall yr asedau hyn fod yn rhai amgylcheddol, ffisegol, diwylliannol neu gymdeithasol. Nid yw eu gwerth wedi'i ddiffinio gan y farchnad yn unig a bydd gwerth cymdeithasol iddynt bob amser.

Mae Earle et al (2017) yn nodi y gallai ad-drefnu gofal cymdeithasol yn Ninas Ranbarth Bae Abertawe greu effaith, ynghyd â 'triple dividend of economic, social and political benefits'. Byddai'n enghraift o ddull sy'n seiliedig ar asedau o ymdrin â datblygu economaidd sy'n cefnogi economiau micro a rhanbarthol ac yn adeiladu ar yr economi sylfaenol sy'n cydnabod ysgogwyr llesiant y tu hwnt i'r athrawiaethau economaidd amlycaf megis dibyniaeth ar fewnfuddsoddi.

Mae gan raglen LEADER lu o brofiadau o ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned, ac mae'n rhaid sicrhau na chollir yr hyn sy'n cael ei ddysgu o hynny ar ôl Brecsit. Mae'r gwaith i wella datblygu economaidd cymunedol yn Preston, Sir Gaerhirfryn drwy fudiadau angori (sy'n wahanol i fudiadau angori cymunedol) er mwyn caffael yn lleol mewn modd deallus a moesegol (gweler CLES 2017) yn cynnig modelau diddorol y dylid edrych arnynt yng Nghymru.

Mae'r rhain yn hyrwyddo gwerth economiau sylfaenol mewn cymunedau yng Nghymru, waeth sut y mae ystadegau amddifadedd yn eu portreadu. Mae mentrau megis Partneriaeth Ogwen ym Methesda, Cwmni Bro Ffestiniog ym Mlaenau Ffestiniog, neu Croeso i'n Coedwig yn y Rhondda Fawr yn dangos sut y gall canolbwytio ar asedau'r gymuned greu cyfoeth a'i gadw'n lleol, yn ogystal â chreu'r naratifau newydd ynghylch lle sydd mor allweddol yn ôl Ymddiriedolaeth Carnegie y DU.

Dylai fod rhagdybiaeth o blaids perchnogaeth gymunedol ar yr asedau hynny sy'n bwysig i gymunedau ac y bernir bod iddynt botensial dichonadwy. Ychydig o ddarpariaeth sydd, fel yn yr Alban a Lloegr, i gymunedau i fynegi awydd i sicrhau perchnogaeth gymunedol ar asedau a datblygu modd o sicrhau hynny. Gan mai cymysg yw'r profiadau o drosglwyddo asedau yng Nghymru, mae lle i ystyried darpariaeth ychwanegol o ran deddfwriaeth a pholisiau i gryfhau'r hawl i berchnogaeth gymunedol.

There was unanimity among those we engaged with about the need for asset-based approaches, and at different scales and levels. These focus on communities' strengths rather than perceived deficiencies.

People emphasised to us the benefit of approaches at community and neighbourhood level that allow communities to harness, exercise control or influence over the use of their key assets. These assets can be environmental, physical, cultural or social. Their value is not defined solely by the market and will invariably have a social value to them.

Earle et al (2017) cite reorganisation in the Swansea Bay city region of social care as potentially particularly impactful with a 'triple dividend of economic, social and political benefits'. It would be an example of an asset-based approach to economic development that supports micro and regional economies and builds on the foundational economy that recognises drivers of well-being beyond prevailing economic orthodoxies such as a reliance on inward investment.

The LEADER programme has a wealth of experiences of community-led local development, the learning from which must not be lost post-Brexit. The work in enhancing community economic development in Preston, Lancashire via anchor institutions (distinct from community anchors) to intelligently and ethically procure locally (see CLES 2017) offers interesting models that should be looked at in Wales.

These promote the value of foundational economies in Welsh communities, irrespective of how deprivation statistics portray them. Enterprises such as Partneriaeth Ogwen in Bethesda, Cwmni Bro Ffestiniog in Blaenau Ffestiniog, or Welcome To Our Woods in the Rhondda Fawr demonstrate how focusing on a community's assets can create wealth and retain it locally, as well as creating the new narratives about places which Carnegie UK Trust cites as so critical.

There should be a presumption towards community ownership of those assets that communities cherish and which are deemed to have realisable potential. There is little provision, like in Scotland and England, for communities to articulate a desire for and develop the means to acquire community ownership of assets. With a mixed experience of asset transfer across Wales, there is scope to consider additional policy and legislative provision to enhance the right for community ownership.



4



**CYDNABOD GWERTH
CYFALAF CYMDEITHASOL
RECOGNISE THE VALUE
OF SOCIAL CAPITAL**

Pan ddisgrifiodd pobl yr hyn yr oedd gwydnwch yn ei olygu iddyn nhw yn ein flogiau, roedd perthnasoedd cefnogi cadarnhaol, ymddiriedaeth, a phobl yn helpu ei gilydd pan fydd problem yn codi yn themâu cyffredin. Dyna yw'r conglfaen o ran y gefnogaeth sydd ar gael i bobl. Mae'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae'r sector cyhoeddus yn ei ddarparu.

When people described what they thought resilience meant in our vlogs, common themes were the positive, support relationships, trust and people helping each other out when there's a problem. These are the bedrock of support that is available to people. It is beyond what the public sector provides.



Credwn fod cysyniad cyfalaf cymdeithasol, a'i gysylltiadau â'r economi sylfaenol, yn hanfodol yma er mwyn egluro'r conglfaen hwn. Nododd Earle et al (2017) fod dad-ddiwydiannu yng Nghymru nid yn unig wedi arwain at golli swyddi uchel eu gwerth ac uchel eu cyflogau, ond hefyd at ddirywiad yn y rhwydweithiau cysylltiadau cymdeithasol sy'n gwneud i bopeth arall weithio. Yng Nghymru, mae aelodaeth undebau llafur ymhlih gweithwyr y sector preifat wedi gostwng, ac felly hefyd nifer y bobl sy'n mynd i gapel ac eglwys, ac aelodaeth o bleidiau gwleidyddol at ei gilydd hefyd.

Mae'n bwysig cydnabod y gwahanol fathau o gyfalaf cymdeithasol (clymu a phontio, llorweddol a fertigol) er mwyn deall y cysylltiadau cymdeithasol sydd ar waith mewn cymunedau. P'un a yw cyfalaf cymdeithasol wedi dirywio neu wedi cymryd ffurf newydd, mae'n amlwg fod digonedd ohono mewn nifer fawr o gymunedau yng Nghymru o hyd, ac mae'n aml yn organig, yn lleol iawn ac yn ei yrru ei hun pan gaiff ei sbarduno i wneud hynny. Mae ymddiriedaeth a chymuned yn atgyfnerthu'r naill a'r llall.

We believe the concept of social capital, with its links to the foundational economy, is crucial here in explaining this bedrock. Earle et al (2017) note that deindustrialisation in Wales has not only resulted in the loss of high value and high wage jobs, but the hollowing out of networks of social relations 'which make everything else work'. In Wales trade union membership among private sector workers has fallen as has chapel and church attendance and generally-speaking political party membership.

Recognition of the different types of social capital (bonding and bridging, horizontal and vertical) is important in order to understand the social relations that are active in communities. Whether social capital has declined or adopted new forms, it is clear that a great many Welsh communities do still have it in abundance and it is often organic, highly localised and self-mobilising when motivated to. Trust and community are mutually re-enforcing.

Yn ganolog i hyn mae creu cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol rhwng pobl mewn cymunedau a rhwng cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Er mwyn gwneud hynny mae'n rhaid i bobl mewn cymunedau ddod at ei gilydd i ddweud beth mae llwyddiant yn ei olygu. Mae hyn yn fod o herio buddiannau sy'n anghymesur o gryf, anghyfartaledd o ran dosbarthu grym, a chefnogi lleisiau a safbwytiau grwpiau sydd wedi'u hymylu. Dylai damcaniaeth ac ymarfer datblygu cymunedol fod yn rhan annatod o'r prosesau hyn.

Anaml y gwelir bod gweithgarwch cymunedol yn ddibynnol ar gyllid cyhoeddus na hyd yn oed yn ei dderbyn. Pwysleisiodd Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a Theatr y Sherman hyn o ran gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn eu [podlediad](#). Mae angen i'r wladwriaeth gydnabod nid yn unig swyddogaeth a gwerth cyfalaf cymdeithasol, ond hefyd fod yn rhaid iddi beidio â'i 'briodoli' nac ymyrryd ag ef. Ni ddylai chwaith geisio'i ffurfioli â fframweithiau performiad a chanllawiau. Mae yna ddadl mai dyna y mae cam olaf Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud: defnyddio mudiadau cymunedol i gyflawni canlyniadau'r llywodraeth ar lefel leol, neu lywio unigolion tuag at fabwysiadu ymddygiadau wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth.

Nid yw cymunedau yn yr ystyr haniaethol yn eu grymuso eu hunain. Yn hytrach, mae pobl yn mabwysiadu gwahanol swyddogaethau arwain, yn ymgasglu o gylch materion penodol (neu ar ôl digwyddiad neu drawma penodol) neu'n uno mewn mudiadau cymunedol. Mae'r rhain wedyn yn cynnig strwythur y gall cyrff cyhoeddus a chyrff eraill ymdrin â hwy.

Mae angen i fudiadau'r trydydd sector hefyd osgoi mygu, ffurfioli, biwrocrateiddio neu briodoli gweithgarwch cymunedol. Un ffordd y gall mudiadau adeiladu cyfalaf cymdeithasol yw cysylltu ymgyrchwyr ar lawr gwlad â'i gilydd ac felly luosogi ymdrechion ac egni pobl.

Gall trefnu cymunedol ddenu pobl at fudiadau o'r gwaelod i fyny sy'n cwmpasu ystod o faterion. Mae'n darparu seilwaith heb ei alinio sy'n rhannu dysgu ac adnoddau, yn cryfhau lleisiau, yn cynnig cymorth y naill i'r llall ac yn galluogi cymunedau i drafod eu dyfodol. Mae mudiadau yng Nghymru a all gefnogi a meithrin dulliau o'r fath. Er enghraifft, y grwpiau pontio ledled Cymru sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar lefel y gymuned megis [Pontio Bro Gwaun](#).

Fundamental to this is having positive social relationships between people in communities and between communities and decision-makers. It requires people in communities to come together to articulate what success will look like. This serves to challenge disproportionately prominent interests, inequitable distribution of power and to support the voices and perspectives of marginalised groups. Community development theory and practice should be embedded in these processes.

Community activity is seldom reliant on, or even in receipt of, public funding. Voluntary Arts Wales and Sherman Theatre underlined this with respect to arts and cultural activities in their [podcast](#). The state needs to recognise not only the role and value of social capital, but recognise that it must not 'colonise' or encroach on it. Neither should it seek to formalise it with performance frameworks and guidance. There is an argument that this is what the latter phase of Communities First has done: manipulating community organisations to deliver government outcomes at a local level, or manipulating individuals into adopting government-sanctioned behaviours.

Communities in an abstract sense do not empower themselves. Rather, people adopt different leadership roles, collectivise around particular issues (or after particular events or traumas) or will coalesce around community organisations. These then allow for a form of structure with which public and other bodies can engage.

Third sector organisations also need to avoid suffocating, formalising, bureaucratising or colonising community activity. One way that organisations can build social capital is by connecting grassroots activists and so multiply people's efforts and energies.

Community organising is an approach that can engage people in bottom-up movements that span a range of issues. It provides a non-aligned infrastructure that shares learning and resource, strengthens voices, provides mutual support and enables communities to debate their futures. Organisations exist in Wales that can support and nurture such approaches. For instance, the transition groups across Wales that promote sustainable development at community level such as [Transition Bro Gwaun](#).



5

GWERTHFAWROGI MUDIADAU ANGORI CYMUNEDOL

VALUE COMMUNITY ANCHOR ORGANISATIONS

Mae'r Mudiadau Angori Cymunedol yn wahanol i'r hybiau cymunedol y mae llawer o awdurdodau lleol yn eu creu. Mae hybiau awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn gyfleusterau, fel arfer mewn hen lyfrgelloedd neu'n gysylltiedig â nhw, sy'n cynnwys gwasanaethau wedi'u cydleoli. Er eu bod yn werthfawr i unigolion sydd am ddefnyddio adnoddau TG, neu gael cyngor neu wybodaeth, ychydig a wnânt i rymuso cymunedau oherwydd nad y cymunedau sy'n berchen arnynt. Mae perchnogaeth gymunedol ac arweinyddiaeth gymunedol yn hanfodol er mwyn grymuso cymunedau.

Mae'r rhan y gall mudiadau angori cymunedol ei chwarae wedi cael cydnabyddiaeth gynyddol dros y degawd diwethaf. Mae [Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru](#) wedi bod yn hyrwyddo mudiad angori cymunedol ers talwm.

Mae WCVA yn dadlau ynghynt mai mudiadau angori (a elwir weithiau'n 'hybiau'):

'yw'r "chwaraewr" mwyaf hanfodol mewn unrhyw raglen adfywio gan fod eu hethos yn cynnwys cyfranogiad cymunedol ac ymddiriedaeth'

(*Canolbwyntiau cymunedol – gweledigaeth ar gyfer Cymru 2011*, t.1)

Mae ymchwil Locality (2017) i wydnwch economaidd yn Lloegr yn tynnu sylw at y ffaith y gall mudiadau angori fod yn asiantau economaidd grymus: yn gweithredu fel lluosyddion economaidd, yn ailddosbarthu cyfoeth yn lleol, yn cyflogi pobl leol mewn swyddi o safon, yn defnyddio cadwyni cyflenwi lleol ac yn buddsoddi mewn pobl er mwyn iddynt hwythau ddod yn economaidd weithgar. Gallai WCVA, BCT a nifer o'r rhai y buom yn meithrin cyswllt â hwy gyfeirio at fudiadau cymunedol sy'n gwneud hyn yng Nghymru.

Trwy ein ymgysylltiad, darganfyddom ni bod mudiadau angori'n rhannu'r nodweddion a'r swyddogaethau isod, er y gall eu ffurf a'u cwmpas fod yn wahanol. Maent yn:

- Darparu lleoliadau agored, hygyrch a chroesawgar lle y gall y gymuned gyfan gwrdd a chymdeithasu
- Cynnwys lefel uchel o wirfoddoli
- Cynnig lleoedd i wahanol grwpiau gwrdd
- Mynd ati'n weithredol i hyrwyddo cydweithredu rhwng gwahanol fentrau a mudiadau cymunedol drwy ystod o rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol

Community Anchors are quite distinct from the community hubs being created by many local authorities. Local authority hubs tend to be facilities, usually based at/around former libraries, comprising co-located services. Though valuable for individuals seeking to access IT facilities, advice or information, they will do little to empower communities because they are not owned by them. Community ownership and community leadership are fundamental for community empowerment.

The role that Community Anchors can play has been increasingly recognised over the past decade. [Development Trusts Association Wales](#) have been promoting community anchors for many years.

WCVA has previously argued that anchors (sometimes called 'hubs') are:

'the most crucial"player" in any regeneration programme because their ethos embeds community involvement and trust'
(Community hubs – a vision for Wales 2011, p.1)

Locality's (2017) research into economic resilience in England highlights how anchors can be powerful economic agents: acting as economic multipliers, redistributing wealth locally, employing local people in quality jobs, using local supply chains and investing in people to themselves become economically active. WCVA, BCT and several of those we engaged could point to community organisations that do this in Wales.

Through our engagement, we found that anchors share the following characteristics and functions, though they can take different forms and 'coverage':

- Provide open, accessible and welcoming venues for the whole community to meet and socialise
- Incorporate a high level of volunteering
- Offer spaces for different groups to meet
- Actively promote cooperation between different community initiatives and organisations through range of informal and formal networks
- Be willing to act as a 'broker' to support people to find out about and access services

- Barod i weithredu fel 'brocer' i helpu pobl i gael gwybod am wasanaethau cyhoeddus a'u defnyddio
- Cefnogi darparwyr gwasanaethau i weithio'n lleol yn eu cymuned (a'u helpu i ddeall anghenion penodol yn y gymuned honno)
- Darparu lleoliadau ar gyfer cefnogaeth yn y gymuned, a ddarperir gan asiantaethau allanol a thrwy gyd-gefnogaeth (e.e. grwpiau llesiant, gwasanaethau cynghori, dysgu i oedolion, banciau bwyd, caffi cymunedol, bingo, nosweithiau dawns, clybiau ieuengtiaid ac ati)
- Ysgogi gweithgareddau cymunedol (e.e. dechrau drwy gynnal digwyddiad, a chynorthwyo eraill wedyn i'w gynnal)
- Darparu swyddogaeth sicrhau ansawdd o ran gwasanaethau sy'n dod i mewn
- Gallu egluro ar ran cymunedau yr hyn a all ddiffinio 'gwerth' o fewn darpariaeth gwerth cymdeithasol wrth gaflaol

Mae'r rhain yn cynnig dealltwriaeth debyg i'r hyn sy'n dod i'r amlwg o waith Braenaru Tasglu'r Cymoedd gan Lywodraeth Cymru a ddaw i ben yng ngwanwyn 2018. Yn ogystal, mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) wedi cydnabod pwysigrwydd mudiadau angori cymunedol ac wedi cydnabod hefyd fod angen cyllid refeniw craidd ar lawer ohonynt. Mae'n afrealistig iddynt dalu eu gorbenion drwy fasnachu'n unig, ac yn arbennig felly fudiadau angori mewn cymunedau difreintiedig. Yn hyn o beth, rydym wedi galw ar gyllidwyr, gan gynnwys y Loteri Fawr ac ymddiriedolaethau a mudiadau annibynnol, i ddatblygu Cronfeydd Llesiant i fudiadau o'r fath ac i fod yn fwy hyblyg o ran eu mein i prawf cymhwys. Croesawn y ddarpariaeth ar gyfer cyllid refeniw yng nghanllawiau Gwaddol Cymunedau yn Gyntaf yn ddiweddar.

Mae diwedda Cymunedau yn Gyntaf yn bygwth cynaliadwyedd rhai mudiadau angori; mae sawl un wedi profi 'storm berffaith' o ansicrwydd yngylch incwm Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ar yr un pryd. Mae perygl gwirioneddol na fydd rhai o'r mudiadau angori hyn yn para'n hir ar ôl i Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben.

Gair i gall arall yw fod y term 'angor' hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at fudiadau mawr, cyhoeddus fel arfer, megis ysbytai, awdurdodau lleol a phrifysgolion. Mae gwaith y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (2017) yn Preston, Sir Gaerhffryn yn ddiddorol am ei fod yn dangos sut y gall fudiadau angori gryfhau cadwyni cyflenwi diffygol drwy strategaethau caffael wedi'u targedu'n ofalus sy'n buddsoddi ac yn cadw cyfoeth yn lleol. Cyfeiriad Locality (2017) at enghreifftiau eraill o hyn hefyd.

- Support service providers to work locally within their community (and support them in understanding specific needs within that community)
- Provide venues for community-based support, provided both by outside agencies and through mutual support (e.g. wellbeing groups, advice services, adult learning, food banks –community cafe/ bingo/dance nights/ youth club etc)
- Stimulate community activities (e.g. start by running an event, then support others to run it)
- Provide a quality assurance role in relation to services coming in
- Can articulate on behalf of communities what can define 'value' within social value provision within procurement

These provide for a similar understanding to that emerging from the Valleys Taskforce Pathfinders work undertaken by Welsh Government which is due to conclude in spring 2018. In addition, the National Assembly for Wales' Equality, Local Government and Communities Committee (2017) has also acknowledged the importance of community anchors and recognised that many require core revenue funding. It is unrealistic for them to cover their overheads solely through trading, particularly those anchors in disadvantaged communities. In this respect, we have called for funders, including Big Lottery and independent trusts and foundations, to develop Wellbeing Funds for such organisations and to be more flexible in their eligibility criteria. We welcome the provision for revenue funding in the recent Communities First Legacy guidance.

The ending of Communities First threatens the sustainability of some anchor organisations; several have experienced a 'perfect storm' of uncertainty around Families First and Flying Start income at the same time. There is a real risk that some of these anchors will not survive long beyond the end of Communities First.

Another note of caution is that the term 'anchor' is also used to refer to large usually public, institutions such as hospitals, local authorities and universities. The work of the Centre for Local Economic Strategies (2017) in Preston, Lancashire is illuminating in demonstrating how anchor institutions can bolster leaky supply chains through carefully targeted procurement strategies that invest and retain wealth locally. Locality (2017) also pointed to other examples of this.



6



**BOD YN GLIR BETH MAE
LLWYDDIANT YN EI OLYGU
BE CLEAR WHAT
SUCCESS MEANS**



Ar lefel genedlaethol rydym wedi awgrymu y dylem anelu at nod o wella llesiant cymunedol ym mhob man yng Nghymru. Mae amryw o fudiadau wedi gwneud llawer o waith i ddatblygu ffyrdd o fesur hyn, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rydym yn gwybod am eraill, megis Happy City Index. Mae What Works Wellbeing hefyd yn edrych ar ffyrdd o fesur llesiant cymunedol.

Er hynny, ar lefel leol, mae'n rhaid i bobl mewn cymunedau ddiffinio'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu iddynt hwy. Os na fydd hynny'n digwydd, bydd cymunedau'n parhau i fod yn oddefol i'r newidiadau sy'n digwydd iddynt. Ni fydd ganddynt berchnogaeth ac mae hynny'n elfen allweddol er mwyn llwyddo. Clywsom am amrywiaeth gyfoethog y gweithgarwch sydd wedi arwain at gymunedau cryfach sydd wedi'u grymuso. Yn rhy aml o lawer, defnyddir dangosyddion ar gyfer cymunedau sy'n gysylltiedig â materion sy'n bwysig i'r wladwriaeth ond nad oes dim cysylltiad rhwngddynt a phethau sy'n bwysig i gymunedau.

Mae goblygiadau i gyllidwyr yn hynny o beth o ran sicrhau bod eu cyllid a'r fframweithiau monitro cysylltiedig yn ymateb i ddyheadau cymunedau. Croesawn awydd y Loteri Fawr i roi lle blaenllaw i bobl yn ei fframwaith strategol cyfredol, ond mae angen i gyllidwyr eraill adleisio hynny a sicrhau bod cyllid ar gael y gellir ei wario ar yr hyn sy'n bwysig i gymunedau.

At a national level we have suggested the goal should be to improve community well-being in all places across Wales. Various organisations have done a lot of work to develop ways of measuring this, including ONS. We are aware of others, such as the Happy City Index. What Works Wellbeing is also exploring ways of measuring community wellbeing.

However, at the local level, people in communities must define what success means for them. If this does not happen, communities will continue to be passive to the changes that happen to them. They will not have ownership and this is a key ingredient for success. We heard about the rich diversity of activity that has led to more resilient and empowered communities. All too often indicators are applied to communities that are related to issues that are important to the state but are unrelated to the things that matter to communities.

This has implications for funders to ensure their funds and the attached monitoring frameworks are sympathetic to communities' aspirations. We welcome Big Lottery's desire to place people in the lead within its current strategic framework, but other funders need to echo this and need to make funds available that can be spent on what matters to communities.

ACTIONS

Gan dynnu ar y canfyddiadau a'r trafodaethau â phartneriaid a rhwydweithiau, argymhellwn y camau canlynol yn y tymor byr a chanolig.

Cam gweithredu 1: Hyrwyddo Mudiadau Angori Cymunedol

- a) **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arian ar gael i fudiadau angori cymunedol drwy wneud y canlynol:**
 - Neilltu o'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a sicrhau bod Cronfeydd Llesiant ar gael ar gyfer eu costau craidd
 - Creu elfen o ffrwd refeniw ar gyfer y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol
 - Sicrhau bod arian i ddarparu gweithgareddau gofal cymdeithasol yn y gymuned yn agored i fudiadau angori cymunedol.

b) **Dylai Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:**

Rhoi prawf ar ffurdd o gynnal a datblygu angorau cymunedol fel canolfannau cymunedol o fewn ei ffrwd waith ar ganolfannau cymunedol.

c) **Dylai cyllidwyr wneud y canlynol:**

Ystyried sut y gallant annog ac ysgogi angorau cymunedol a ddatblygir yn organig yn y cymunedau hynny lle nad oes mudiadau o'r fath.

d) **Dylai mudiadau seilwaith y trydydd sector wneud y canlynol:**

Datblygu mecanweithiau i hwyluso dysgu ar y cyd rhwng angorau cymunedol yng Nghymru i sicrhau nad ydynt yn gweithio ar wahân, annog arloesi a chydweithio, a chodi safonau.

Drawing on the engagement findings and discussions with partners and networks, we recommend the following actions for the short to medium term.

Action 1: Promote Community Anchor Organisations

- a) **Welsh Government should make funding available to community anchor organisations by:**
 - Reserving part of the Community Facilities Programme and make Wellbeing Funds available for their core costs
 - Creating a revenue stream element for the Community Facilities Programme
 - Ensuring that funds for community provision of social care activities are open to community anchor organisations.

b) **The Welsh Government Valleys Taskforce should:**

Test out how community anchors can be sustained and developed as community hubs within its community hub worksream,

c) **Funders should**

Consider how they can encourage the stimulation of organically-developed community anchors in those communities that lack them.

d) **Third sector infrastructure organisations should:**

Develop mechanisms to facilitate shared learning between community anchors in Wales to reduce them working in isolation, encourage innovation and collaboration, and drive up standards.

Cam gweithredu 2: Integreiddio perchnogaeth gymunedol a grymuso cymunedol mewn rhaglenni Ilywodraethol a phrosesau comisiynu

Action 2: Integrate community ownership and empowerment into government programmes and commissioning processes

**a) Dylai Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, y
trydydd sector a busnesau wneud y canlynol:**

Datblygu dull aml-sector o gynyddu arfer da mewn prosesau comisiynu, gan sicrhau bod comisiynwyr a'r rheini sy'n caffael yn hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac effaith economaidd leol.

b) Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

Sicrhau bod pob buddsoddiad economaidd mawr yn cynnwys rhaglenni hyfforddi penodol sy'n targedu cymunedau lleol, a chryfhau grym cymunedau lleol i sicrhau bargin well iddyn nhw'u hunain drwy'r buddsoddiad.

**c) Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus
wneud y canlynol:**

Ateb y gofyniad yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i ddatblygu cwmnïau gofal cymdeithasol cydweithredol a mentrau dielw tebyg eraill dan berchnogaeth leol, ac annog hyder yn y dull hwnnw.

**a) Welsh Government, public bodies, third sector
and business to:**

Develop a multi sector approach to increasing good practice in commissioning, ensuring commissioners and procurers promote social value and local economic impact.

b) Welsh Government should:

Ensure all major economic investments are matched by specific training programmes targeting local communities, and strengthen the power of local communities to negotiate a better deal for themselves through the investment.

c) Welsh Government and public bodies should:

Meet the requirement in the Social Services and Well-being Act to develop social care co-operatives and similar not-for-profit locally owned ventures and encourage confidence in this approach.

Cam gweithredu 3: Datblygu modelau ariannol a chronfeydd newydd

Action 3: Develop new financial models and funds

a) Dylai'r Llywodraeth, y trydydd sector, cyllidwyr ac arbenigwyr (megis academyddion) wneud y canlynol:

Archwilio modelau a chyfryngau i gynyddu buddsoddiad mewn cymunedau lleol. Dylai'r modelau hyn geisio cyfeirio ac ailgylchu elw er budd cymunedau, er enghraifft, o ddatblygiad economaidd lleol, cynlluniau ynni adnewyddadwy ac arbedion ym mhwrss y wlad o wasanaethau/ymyriadau ataliol llwyddiannus.

b) Dylai Llywodraeth Cymru a chyllidwyr wneud y canlynol:

Sicrhau bod cronfa ar gael ar gyfer gweithgaredd datblygu cymunedol ar lawr gwlad sy'n grymuso pobl i ddod at ei gilydd o'u gwirfodd, i gydweithio a chynllunio, i herio anghydraddoldebau ac i hybu llesiant.

c) Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

Pwysleisio gwerth yr economi sylfaen yn Ninas-ranbarthau Bae Abertawe a Chaerdydd, fel y bydd buddion economaidd o'u Bargeinion yn ystyried anghenion pob cymuned.

a) Government, third sector, funders and experts (such as academics) should:

Explore models and vehicles to increase investment in local communities. These models should look to direct and recycle dividends to communities, for example from local economic development, renewable energy schemes and savings to the public purse from successful preventative services/interventions.

b) Welsh Government and funders should:

Make available a fund for grassroots community development activity that empowers people to voluntarily come together, to collaborate and plan, to challenge inequalities and enhance wellbeing.

c) Welsh Government should:

Impress the value of the foundational economy on the Swansea Bay and Cardiff City Regions, so that economic benefits from their Deals consider the needs of all communities.

Cam gweithredu 4: Cynnal pwyslais ar ddulliau yn seiliedig ar le

Dylai Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, y trydydd sector a busnesau wneud y canlynol:

Cydnabod pwysigrwydd lle a'r ymlyniad at le mewn llawer o gymunedau a chynnal pwyslais ar ddulliau yn seiliedig ar le mewn rhagleni a pholisïau.

Action 4: Retain an emphasis on place-based approaches

Welsh Government, public bodies, third sector and business should:

Recognise the importance of and attachment to place to many communities and retain an emphasis on place-based approaches in programmes and policy.

Cam gweithredu 5: Galluogi perchnogaeth gyfunol dros asedau cymunedol

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ystyried perchnogaeth gyfunol dros asedau cymunedol fel model a ffefrir ac ystyried a oes angen Bil i sefydlu hawliau cymunedol mewn deddfwriaeth.
- Cryfhau canllawiau ar drosglwyddo asedau o'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau blaenoriaeth i fuddiannau'r cymunedau sy'n derbyn asedau, nid y corff sector cyhoeddus sy'n eu gwaredu. Dylai hyn dynnu ar brofiadau o drosglwyddo asedau er mwyn sefydlu arferion da a gwael.
- Cyflwyno canllawiau i roi mynediad i fentrau cymunedol at yr ystad gyhoeddus i reoli mentrau cymdeithasol cynaliadwy sy'n cynhyrchu adnoddau er budd lleol (tra mae yna engrheifftiau llwyddiannus o fentrau cymunedol yn defnyddio adnoddau naturiol, maent yn aml yn wynebu rhwystrau rheoleiddiol uchel iawn).

Action 5: Enable collective ownership of community assets

Welsh Government should:

- Presume collective ownership of community assets as a preferred model and consider whether a Bill is needed to enshrine community rights in legislation.
- Strengthen guidelines on asset transfer from the public sector to ensure the interests of acquiring communities are prioritised, not the public sector disposer. This should draw on experiences of asset transfer to inform good and bad practice.
- Introduce guidelines to allow community enterprises access to the public estate to manage sustainable social enterprises which generate resources for local benefit (while there are successful examples of community enterprises using natural resources they often face very high regulatory barriers)

Cam gweithredu 6:

Cydnabod mai sail cymunedau sydd wedi'u grymuso yw gweithredu gwirfoddol a chymunedol anffurfiol

a) Dylai cyrff seilwaith y trydydd sector wneud y canlynol:

Parhau i gefnogi'r gwaith trefnu gwirfoddol, anffurfiol mewn cymunedau a pharhau i hyrwyddo ei bwysigrwydd yn cynhyrchu cyfalaf cymdeithasol.

b) Eu rhoi eu hunain wrth wraidd gweithgareddau effeithiol i ddysgu, cyfnewid a meithrin gallu.

c) Dylai cyrff cyhoeddus wneud y canlynol:

Rhoi blaenoriaeth i ddatblygiadau sy'n annog ac yn hyrwyddo cyfalaf cymdeithasol a chymdeithasgarwch ac nid diddordebau, buddiannau nac amcanion unigol preifat.

Action 6:

Recognise that the bedrock of empowered communities is informal voluntary and community action

a) Third sector infrastructure bodies should:

Continue to support the informal, voluntary organising in communities and continue to champion its importance in generating social capital.

b) Place themselves at the heart of effective learning, exchange and capacity building.

c) Public bodies should:

Presume in favour of developments that encourage and promote social capital and sociability and not private interests, concerns and individual pursuits.

Cam gweithredu 7:

Mapio mudiadau cymunedol

Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda'r trydydd sector i wneud y canlynol:

Cynnwys map cychwynnol o'r prif fudiadau a grwpiau cymunedol yn eu Cynlluniau Llesiant.

Action 7:

Mapping community-based organisations

Public Service Boards should work with the third sector to:

Include an initial mapping of the principal community-based organisations and groups in their Wellbeing Plans.

CYFEIRIADAU

REFERENCES

Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol
 (2017) *Community Wealth Building through Anchor Institutions*, CLES

Earle, J et al (2017) *What Wales Can Do: Asset Based Policies and the Foundational Economy*,
 Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru a foundationaleconomy.com.

IVAR a Local Trust (2017) *IVAR Research briefing 1 - Issues Dialogue*, Empowered Communities in the 2020s.

Kelly, J-F (2017) *Turnaround Towns: International Evidence*, Ymddiriedolaeth Carnegie y DU.

Locality (2017) *Powerful Communities, Strong Economies*, Locality

Menzies, R (2017) *Cefnogi Lleoedd Lleol a Phobl Leol: Cyfleoedd a Heriau ar gyfer Trefi yng Nghymru*, Ymddiriedolaeth Carnegie DU a WCVA.

Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) *Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Sefydliad Young (2017) *Valuing Place*.

WCVA (2011) *Canolbwytiau cymunedol – gweledigaeth ar gyfer Cymru*, WCVA.

Centre for Local Economic Strategies
 (2017) *Community Wealth Building through Anchor Institutions*, CLES

Earle, J et al (2017) *What Wales Can Do: Asset Based Policies and the Foundational Economy*, Centre for Regeneration Excellence Wales and foundationaleconomy.com.

IVAR and Local Trust (2017) *IVAR Research briefing 1 - Issues Dialogue*, Empowered Communities in the 2020s.

Kelly, J-F (2017) *Turnaround Towns: International Evidence*, Carnegie UK Trust.

Locality (2017) *Powerful Communities, Strong Economies*, Locality

Menzies, R (2017) *Supporting Local Places and Local people: Opportunities and challenges for Welsh towns*, Carnegie UK Trust and WCVA.

National Assembly for Wales Equality,
 Local Government and Communities Committee
 (2017) *Communities First Lessons Learnt*, NAfW.

The Young Foundation (2017) *Valuing Place*.

WCVA (2011) *Community Hubs – a vision for Wales*, WCVA.

Yn cefnogi elusennau,
 gwirfoddolwyr a chymunedau
 Supporting charities, volunteers
 and communities



[www.facebook.com/
walescva](http://www.facebook.com/walescva)



[www.twitter.com/
walescva](http://www.twitter.com/walescva)

www.wcva.org.uk